

Llais y Llywydd: Y Gwir Anrh Carwyn Jones AC, Prif Weinidog Cymru

Y Gwir Anrh Carwyn Jones AC, Prif Weinidog Cymru yw Llywydd y Dydd, dydd Mercher yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Pen-y-bont ar Ogwr, Taf ac Elái 2017.

Cafodd Carwyn Jones ei eni ym 1967 a cafodd ei addysg yn Ysgol Gyfun Brynteg, Pen-y-bont ar Ogwr, ym Mhrifysgol Cymru Aberystwyth ac yn *Inns of Court School of Law*, Llundain. Mae wedi bod yn aelod o'r Blaidd Lafur ers 1987 ac yn Aelod Cynulliad dros Ben-y-bont ar Ogwr ers 1999.

O fis Mawrth 2000 i fis Rhagfyr 2009 cafodd gyfrifoldeb dros sawl portffolio Gweinidogol. Yn dilyn ymddeoliad Rhodri Morgan AC ym mis Rhagfyr 2009, cafodd ei apwyntio fel Prif Weinidog Cymru ac fe'i benodwyd i'r Cyfrin Gyngor ar y 9fed o Fehefin 2010. Yn dilyn etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai 2016 cafodd ei ail-benodi'n Brif Weinidog Cymru.

Beth yw eich atgof cyntaf/hoff atgof o'r Urdd?

Gweithgareddau yn yr ysgol gan fwyaf, ond yn anffodus chefais i ddim y cyfle i gystadlu nac i fynd i Langrannog neu Glan-llyn.

Yw'r profiad o gystadlu wedi bod o fudd yn eich bywyd proffesiynol?

Bum yn cystadlu mewn Eisteddfodau ysgol a thrwy hynny, ynghyd â siarad yn y capel, fe ddysgais sut i siarad yn gyhoeddus. Mae hyn wedi bod yn sgil ddefnyddiol iawn i mi yn fy ngyrfa.

Pa gystadleuaeth newydd hoffech ei weld yn rhan o'r Eisteddfod?

Cystadleuaeth ysgrifennu ffuglen ar y pwnc "*Disgrifiwch beth fydddech chi'n ei wneud os bydddech chi'n Brif Weinidog Cymru am y diwrnod*". Byddai'n ddiddorol iawn clywed beth yw syniadau rhai o arweinwyr Cymru'r dyfodol!

Disgrifiwch ardal Pen-y-bont ar Ogwr i bobl sydd erioed wedi bod yna o'r blaen

Enw gwreiddiol Pen-y-bont oedd Pennebont, ac roedd mwyafrif y trigolion yn siaradwyr Cymraeg yn y 1870au. Erbyn hyn mae'r iaith ar ei dyfiant yn y dref, er bod hynny o fan cychwyn reit isel. Enwyd y dref ar ôl y bont gafodd ei adeiladu dros yr Afon Ogwr ym 1425. Mae wedi tyfu dipyn dros y pedwar deg mlynedd diwethaf, ac fel rhywun a gafodd fy magu yma ac a ddychwelodd yn fy ugeiniau, mae'n rhaid i mi ddweud ei fod yn lle gwych i fyw.

Beth, yn eich barn chi, yw'r peth gorau am yr Urdd?

Drwy'r Urdd, mae pobl ifanc yn cael y cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg mewn nifer o sefyllfaoedd gwahanol, gan wneud yr iaith yn berthnasol i genhedlaeth y cyfryngau cymdeithasol. Wrth gwrs, mae hefyd yn cynnig cyfleon gwych i fod yn rhan o weithgareddau led-led Cymru.

President of the Day: Rt Hon Carwyn Jones AM, First Minister of Wales

The Rt Hon Carwyn Jones AM, First Minister of Wales is the President of the Day for Wednesday at the Urdd National Eisteddfod, Bridgend Taff-Ely 2017.

Carwyn Jones was born in 1967, he was educated at Brynteg Comprehensive School, Bridgend; University of Wales, Aberystwyth and Inns of Court School of Law, London. He has been a Labour Party member since 1987 and the Assembly Member for Bridgend since 1999.

Between March 2000 and December 2009 he held a number of different Ministerial portfolios. Following the retirement of Rhodri Morgan AM, he was appointed First Minister of Wales on 9 December 2009 and was appointed to the Privy Council on 9 June 2010. Following the Assembly Elections in May 2016 he was re-appointed First Minister of Wales.

What is your first / favourite memory of the Urdd?

Activities in school mainly, although sadly, I never had the chance to compete or to go to Llangrannog and Glan-Ilyn.

Has the experience of competing been of benefit in your career?

I competed in school Eisteddfodau and, together with standing up in chapel I learned to stand on my feet and speak. It's been useful to me in my career.

Which new competition would you like the Urdd to introduce?

A fictional writing competition on the topic "describe what you would do if you were First Minister of Wales for the day?" It would be fascinating to hear ideas from some of Wales' future leaders!

Describe the Bridgend area to people that have never visited the area

Bridgend was originally called Pennebont and had a majority of Welsh speakers in the 1870s. The language is growing in the town, although from a low base. The town is named after the bridge that was built over the River Ogmore in 1425. It's grown a lot over the last forty years, and as someone who grew up here and who returned in my twenties, I'm bound to say that it's a great place to live.

What, in your view, is the best thing about the Urdd?

It gives young people a chance to use Welsh in a number of different contexts, making the language relevant to the social media generation. Of course, it also offers great opportunities to get involved in activities the length and breadth of Wales.